
CYD-BWYLLGOR GWE

22/05/2024

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr: Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint) a Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais: Manon Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd) a Noel Fitzgerald (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

Swyddogion Heb bleidlais: Clare Scanlon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych) a Gwern ap Rhisiart (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol:

GwE – Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad), Rhys Williams (Uwch Arweinydd Strategol Partneriaethau) a Meleri H Roberts (Cyfieithydd).

Cyngor Gwynedd (Yr Awdurdod Lletyol) – Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Dymunwyd gwellhad buan i Euros Davies (Uwch Arweinydd Rhanbarthol GwE – Ysgolion Cynradd ac Arbennig) yn dilyn anhwylder diweddar.

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd Julie Fallon yn Gadeirydd ar gyfer 2024/25.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD Penodi'r Cyngorydd Gill German yn Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cyngorydd Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Y Cyngorydd Beca Brown (Cyngor Gwynedd), Paul Smith (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2024, yn gywir.

Mater yn codi o'r Cofnodion

Eitem 7 – Dyfodol Gwella Ysgolion yng Ngogledd Cymru

Cyfeiriodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE at y penderfyniad i gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod hwn o'r Cydbwyllgor ar y ffordd ymlaen fydd yn ymdrin ag amserlen a materion llywodraethu, yn ogystal â goblygiadau cyllidebol, gan nodi:-

- Y paratowyd drafft cynnar o bapur i'w drafod gyda'r Bwrdd Rheoli, a bod y papur eisoes wedi'i rannu gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd, fel y Prif Weithredwr Arweiniol.
- Bod y papur drafft yn cynnwys rhai o'r cwestiynau a godwyd gan aelodau'r Cydbwyllgor, megis beth yw cost cau lawr y gwasanaeth, oes yna arbedion y gellir eu gwneud o fewn y flwyddyn, beth yw'r modelau newydd wrth i ni ail-siapio'r gwasanaeth a beth yn union fydd rôl y Cydbwyllgor a'r Bwrdd Rheoli wrth symud ymlaen.
- Y gobeithir rhannu'r papur gyda'r Bwrdd Rheoli am sylwadau a'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor yng nghyfarfod Gorffennaf, neu o bosib' bydd angen cynnal cyfarfod brys rywle yn y canol petai'r sefyllfa yn newid yn weddol sydyn.
- Ei bod yn eithaf clir o ddatganiad cychwynnol y Gweinidog Addysg newydd fod y broses o ail-drefnu'r gwasanaethau gwella ysgolion am barhau ac roedd cwmni Isos, dan arweiniad Simon Day, wedi cael cytundeb 6 mis gan y Llywodraeth i frw ymlaen ag ail ran y gwaith.
- Y deallid bod y gweision sifil yn disgwyl i'r awdurdodau lleol ddatgan beth yw eu partneriaethau i'r Llywodraeth yn fuan ar ôl yr hanner tymor i ddechrau Gorffennaf, a'u bod yn parhau i lyngu at yr amserlen hyd at 31 Mawrth, 2025. Yn amlwg, nid oedd unrhyw beth wedi'i gyhoeddi nac yn ysgrifenedig o ran hynny, ond o bersbectif rhoi gobaieth a thawelwch meddwl i staff GwE, gorau po gyntaf bod y modelau, a beth yn union yw'r swyddi o fewn y modelau hynny, yn cael eu rhannu.
- Y byddai cyhoeddi'r modelau hefyd yn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor yn eu hawdurdodau unigol ac fel awdurdodau ar y cyd ynglŷn â chost cau i lawr y gwasanaeth a beth fydd y costau yn lleol o ran gweithio gyda phartneriaid i gychwyn gosod y gwasanaeth newydd i fyny.
- Gan hynny, roedd yna ffactorau sydd angen eu penderfynu yn gynt, yn hytrach nag yn hwyrach, os yw'r Llywodraeth am wireddu'r dyddiad o 31 Mawrth, 2025.

Mewn ymateb, nodwyd bod y Prif Swyddogion yn llwyr ymwybodol o'r heriau a'r ansicrwydd sy'n wynebu staff GwE, ac y dymunid sicrhau'r Cydbwyllgor bod pawb yn gweithio mor gyflym â phosib', yn unigol ac ar y cyd, i gyrraedd sefyllfa o sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau i'r dyfodol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y dasg yn enfawr ac yn hynod o gymhleth i'r awdurdodau lleol, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Nodwyd ymhellach:-

- Bod un o'r gweision sifil arweiniol wedi datgan eu bod yn gwranddo ar awdurdodau lleol sy'n dweud wrthynt bod amserlen wreiddiol y Llywodraeth o safbwynt datgan partneriaethau yn debygol iawn o fod yn afrealistig.
- Bod angen ychydig mwy o amser i weithio drwy'r modelau. Unwaith y bydd yna fwy o sicrwydd ynglŷn â hynny, bwriedir datblygu partneriaethau yn lleol ac yn rhanbarthol i gefnogi'r model hwnnw.
- Yn sicr, ni fydd yr awdurdodau lleol mewn sefyllfa i ddatgan eu bwriadau yn syth ar ôl yr hanner tymor.

Mynegwyd pryder bod staff GwE eisoes wedi wynebu 4 mis o ansicrwydd ers i'r Gweinidog wneud ei gyhoeddiad ddiwedd Ionawr, a holwyd a fyddai'n bosib' cael trafodaeth y tu allan i'r cyfarfod ffurfiol ynglŷn â phriodoldeb rhyddhau rhai staff cyn Mawrth 2025.

Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:-

- Bod manylion terfynol y comisiynau unigol gan yr awdurdodau lleol i GwE yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, cyn cael eu harwyddo gan y Deilyddion Portffolio Addysg, y Cyfarwyddwyr ac yntau ar ran GwE.
- Bod risg y byddai staff ar secondiad yn dychwelyd i'w hysgolion, rhai staff yn ymddeol ac eraill sy'n methu, neu'n anfodlon cymryd y risg, yn ymgeisio am swyddi eraill yn y cyfamser.
- Po hiraf yr amserlen cyn penderfynu ar y modelau, yna mwya'r risg o fod mewn sefyllfa o fetu cwblhau'r holl gomisiynau ar draws y rhanbarth, ac roedd hynny yn ddibynnol ar y sector, daearyddiaeth a chyfrwng.
- Bod rhaid ail-drefnu'r gweithlu bob tro mae aelod staff yn gadael, a gellid dod i sefyllfa lle y byddai'n anodd cyfarfod â gofynion y comisiwn.

Nodwyd yr angen i gadw mewn cysylltiad dros y dyddiau nesaf a gweithio allan y camau nesaf.

7. CYFRIFON TERFYNOL GWE 2023-24 – ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd – adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid a'r Tîm am yr adroddiad.

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:-

- Gyda'r newid sylweddol yn y ffordd mae grantiau wedi symud o'r rhanbarth i'r awdurdodau lleol unigol, y byddai GwE yn sicr o fyw o fewn y gyllideb a osodwyd arnynt am y flwyddyn ariannol bresennol.
- Bod y defnydd o'r arian wrth gefn yn drafodaeth i'w chael gyda'r prif weithredwyr cyn cyflwyno argymhellion i'r Cydbwyllgor o ran y defnydd gorau o'r gyllideb honno a'r arian sydd wedi cronni dros gyfnod o amser, gan gynnwys y gyllideb ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso.

PENDERFYNWYD

- 1. Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Cydbwyllgor GwE am 2023/24.**
- 2. Cymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant o £77,323 yn 2023/24, ar ôl ystyried y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant.**

3. **Cymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2023/24 fydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd i'w cynhyrchu, eu hardystio a'u cyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya o fewn yr amserlen statudol.**

8. **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-2024 GWE**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE Adroddiad Blynyddol GwE 2023-24 i'r Cydbwyllgor.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol i'r Rheolwr Rheoli Perfformiad am dynnu'r adroddiad at ei gilydd ac i holl aelodau'r Tîm sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad.

Eglurwyd:-

- Ei bod yn debygol mai dyma'r adroddiad olaf o'r math hwn y byddai'r Cydbwyllgor yn ei dderbyn wrth i'r gwasanaeth newid o fod yn wasanaeth ar y cyd i un sy'n cael ei gomisiynu gan bob awdurdod ar wahân.
- Gan fod yna wahaniaeth rhwng y 6 awdurdod o ran yr hyn sy'n cael ei gomisiynu, mai'r awdurdodau lleol unigol fyddai'n adrodd ar y gwasanaeth gwella ysgolion yn eu prosesau democrataidd eu hunain yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.
- Y byddai'r drafodaeth yn digwydd gyda'r Bwrdd Rheoli / Awdurdodau Lleol unigol, yn hytrach na bod y cwbl yn cael ei gyflwyno fel un adroddiad cyfansawdd.

Nodwyd y cytunid â'r sylw yn y rhagair i'r adroddiad bod GwE yn adnabod eu hysgolion a'u lleoliadau yn dda, ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer, a diolchwyd i'r staff am y gwaith caled, y gefnogaeth a'r cydweithio, a hynny ar adeg anodd iawn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.

9. **COFRESTR RISG GWE**

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cydbwyllgor.

Cyn manylu ar y gwahanol risgiau, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr:-

- Ei bod yn debygol y byddai angen i'r awdurdodau lleol unigol edrych ar yr hen risgiau oedd yn weithredol i GwE, ac ystyried faint ohonynt sy'n berthnasol iddynt hwy.
- Gan ein bod mewn cyfnod o newid, y byddai'n rhaid dod at y gofrestr risg yn eithaf rheolaidd i ychwanegu a thynnu i ffwrdd fel sy'n briodol gan fod y risgiau yn siŵr o fod yn newid yn amlach nag yn y gorffennol.

Nodwyd bod gan y Cydbwyllgor ddyletswydd tuag at staff GwE i roi ystyriaeth frys i'r ffordd ymlaen, ac awgrymwyd y dylai'r Bwrdd Rheoli wahodd y Cydbwyllgor i un o'u cyfarfodydd fel bod modd briffio'r aelodau ar yr adroddiad sy'n cael ei ddrafftio, a hynny mewn da bryd cyn cyfarfod Gorffennaf o'r Cydbwyllgor, fel bod modd i'r aelodau adlewyrchu ar hynny a chael trafodaeth agored mewn gweithdy cyn cytuno ar y ffordd ymlaen yn y Cydbwyllgor ym mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD

1. **Cymeradwyo cynnwys y gofrestr.**
2. **Y dylai Bwrdd Rheoli GwE wahodd y Cydbwyllgor i un o'u cyfarfodydd fel bod modd briffio'r aelodau ar yr adroddiad sy'n cael ei ddrafftio, a hynny mewn da bryd cyn cyfarfod Gorffennaf o'r Cydbwyllgor, fel bod modd i'r aelodau adlewyrchu ar hynny a chael trafodaeth agored mewn gweithdy cyn cytuno ar y ffordd ymlaen yn y Cydbwyllgor ym mis Gorffennaf.**

10. CEFNOGAETH DYSGU PROFFESIYNOL GWE 04-2024 – 03-2025

Cyflwynodd yr Uwch Arweinydd Strategol Partneriaethau adroddiad yn rhannu gwybodaeth gydag aelodau'r Cydbwyllgor am y Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

Diolchwyd i bawb am y gwaith.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Dysgu Proffesiynol newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11.15yb.

CADEIRYDD